OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2023 No. 260

Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2023

RHAN 4

Yr hawl i gael tâl salwch amaethyddol

Iawndal a adenillir yn sgil colli enillion

27.—(1) Mae'r erthygl hon yn gymwys i weithiwr amaethyddol y mae ei hawl i gael tâl salwch amaethyddol yn codi oherwydd gweithred neu anweithred person heblaw ei gyflogwr ac mae'r iawndal yn cael ei adennill gan y gweithiwr amaethyddol mewn cysylltiad â cholled enillion a ddioddefir yn ystod y cyfnod y cafodd y gweithiwr amaethyddol dâl salwch amaethyddol gan ei gyflogwr ar ei gyfer.

(2) Pan fo paragraff (1) yn gymwys—

(a) rhaid i'r gweithiwr amaethyddol roi gwybod ar unwaith i'w gyflogwr am yr holl amgylchiadau perthnasol ac am unrhyw hawliad ac am unrhyw iawndal a adenillwyd o dan unrhyw gyfaddawd, setliad neu ddyfarniad,

(b) rhaid i'r holl dâl salwch amaethyddol a dalwyd gan y cyflogwr i'r gweithiwr amaethyddol hwnnw mewn cysylltiad â'r absenoldeb salwch yr adenillir iawndal am golli enillion ar ei gyfer fod yn gyfystyr â benthyciad i'r gweithiwr, ac

(c) rhaid i'r gweithiwr amaethyddol ad-dalu i'w gyflogwr swm nad yw'n fwy na'r lleiaf o'r canlynol—

(i) swm yr iawndal a adenillwyd am golli enillion yn y cyfnod y talwyd tâl salwch amaethyddol ar ei gyfer, a

(ii) y symiau a roddwyd i'r gweithiwr amaethyddol gan ei gyflogwr o dan y Rhan hon ar ffurf tâl salwch amaethyddol.